



Huw Lewis
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau:
Llywodraeth Cymru

29 Ionawr 2015

Annwyl Huw

Bil Cymwysterau Cymru

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 21 Ionawr, 2015, ystyriodd y Pwyllgor oblygiadau ariannol Bil Cymwysterau Cymru. Roedd gan yr Aelodau ddau ymholiad mewn perthynas â'r Bil yr hoffem gael eich barn arnynt.

Costau TGCh

Er bod Atodiad B i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi eich bod wedi gwneud gwaith manwl o ran y costau sy'n gysylltiedig â TGCh, nid yw'r Asesiad yn rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut y cyfrifwyd y costau hyn. O'u cymharu, mae'r costiau ar gyfer staffio ac eiddo yn llawer mwy manwl, ac maent yn dangos y tybiaethau a ddefnyddiwyd i gyfrifo costau ychwanegol yn y meysydd hyn. O gofio bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi eich bod wedi cynnal astudiaeth gwmpasu fanwl ynghylch y costau yn y maes hwn, byddai'n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am y rhain.

Cyfanswm costau yr opsiwn a ffefrir a chostau ychwanegol

Dywedasoch mewn tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2014, y caiff y Bil ei ariannu "o fewn y gyllideb addysg a gytunwyd" ac nad oes "gennych fynediad at adnoddau ychwanegol"¹. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau pa gyllideb benodol a gaiff ei defnyddio i dalu cyfanswm y costau a fydd yn deillio o weithredu'r ddeddfwriaeth a'r costau ychwanegol.

¹[Trawsgrifiad o gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - 11 Rhagfyr, 2014](#)

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Byddwn yn ddiolchgar pe bai modd i chi ymateb i'r pwyntiau hyn erbyn 20 Chwefror at 2015. Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script, reading 'Jocelyn Davies'.

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd